# ADRODDIAD GAN Y CYNGOR CYMUNED

**CYNLLUN LLIFOGYDD –** Wrth ddatblygu cynllun Llifogydd Aml-Asiantaeth Dyffryn Conwy, caiff cymunedau sy'n adnabyddus am gael eu boddi, fel Dolwyddelan, eu hannog i ymateb drwy gynhyrchu cynllun llifogydd lleol. Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan a Chynghorydd Liz Roberts, sy'n aelod o'r bartneriaeth aml-asiantaeth, yn ymgysylltu gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynhyrchu'r cynllun lleol hwn. Y gobaith ydy, i wirfoddolwyr weithio ochr yn ochr â Chyngor Cymuned Dolwyddelan i sicrhau bod ein trigolion yn y pentref yn derbyn rhybudd o flaen llawn gan CNC am lifogydd posibl yn yr ardal.

Mae'r cais ar gyfer 2 wirfoddolwr ond byddai hyd at 5 person yn ddelfrydol. Mae Cynghorydd Liz Roberts a Chlerc Cyngor Cymuned Dolwyddelan yn fodlon cefnogi'r gwirfoddolwyr i gydlynu cynllun o'r fath ar gyfer Dolwyddelan gyda chefnogaeth Dŵr Cymru a CNC hefyd.

**Mae meinciau picnic newydd wedi'u gosod yn ardal goetir yr orsaf ac un arall wrth y siglenni.**



**CYNLLUN CYMUNEDOL** – Cafodd 2 ddigwyddiad llwyddiannus eu cynnal yn y Pafiliwn gyda thrigolion yn mynegi eu barn. Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan bellach yn aros am y Cynllun wedi'i gwblhau gan yr ymgynghorydd fel bod modd ei rannu gyda'r gymuned. Simon Shuttler

---

## LLYFRAU - LLYFRAU - LLYFRAU !

Ydych chi'n hoffi darllen?
Ydych chi'n mynd trwy lyfrau yn gyflym iawn?

Wel, mae cannoedd o nofelau ail-law, cyfeirlyfrau, llyfrau hunangymorth, coginio, garddio, hobi a llyfrau plant ar gael yn stondin lyfrau'r Pafiliwn (llawer ohonynt erioed wedi'u darllen!)

Caiff llyfrau 'newydd' eu hychwanegu bob wythnos, rhai Cymraeg a Saesneg.

Bydd mynediad i archwilio pan fydd goleuadau'r Pafiliwn ymlaen.
Blwch gonestrwydd i dderbyn taliadau.



Rydym hefyd yn croesawu rhoddion o lyfrau yn fawr.
Bydd yr arian gaiff ei godi yn mynd yn ôl i'r gymuned.

